NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Therapi ymbelydredd mewnol dethol ar gyfer cholangiocarcinoma intrahepatig cynradd na ellir ei dynnu'n llwyr

31 Hydref 2018

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon, a hynny am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio. Mae pryderon diogelwch tra hysbys, difrifol ond prin ynghylch y driniaeth hon.

Mae cholangiocarcinoma intrahepatig yn fath prin o ganser yr afu/iau. Ni roddir diagnosis ohono fel arfer nes ei fod yn rhy hwyr defnyddio triniaeth i'w dynnu (ni ellir ei dynnu'n llwyr). Mae therapi ymbelydredd mewnol dethol (a elwir yn SIRT) yn cynnwys chwistrellu 'gleiniau' ymbelydrol bach iawn i'r pibellau gwaed sy'n cyflenwi'r gwaed i'r afu/iau, lle y cânt eu dal. Yna mae'r gleiniau yn rhyddhau dognau uchel o ymbelydredd yn uniongyrchol i mewn i'r celloedd canser. Y nod yw lladd y celloedd canser gan achosi cyn lleied o niwed i'r feinwe iach o'u cwmpas â phosibl.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?

Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3115-6

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights